Wythnos 1 Week 1

**Rhigymau rhif**

**Number rhymes**

Pori Drwy Stori

# Pum Hwyaden

## (Five Little Ducks)

**Pum** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'**Pedair** sydd ar ôl, cwac, cwac!'


**Pedair** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'**Tair** sydd ar ôl, cwac, cwac!'

**Tair** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'**Dwy** sydd ar ôl, cwac, cwac!'

**Dwy** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'**Un** sydd ar ôl, wel cwac, cwac, cwac!'

**Un** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'Does yr un ar ôl! O! Cwac, cwac, cwac!'

Mami aeth am dro i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd Mam, 'Dewch, cwac, cwac, cwac!'
Daeth pawb yn ôl, pob un wan jac!



Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

© Darluniau gan Matt Joyce

mae addysg yn dechrau yn y cartref
education begins at home

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

Pori Drwy Stori

# Adeiladu Tŷ Bach, Un, Dau, Tri

## (Build a Little House, One Two, Three)

Adeiladu tŷ bach, un, dau, tri,
To ar ei ben o, a dyna ni.
Edrych mewn trwy'r ffenest,
Be welwn ni?
Llygoden fach yn cysgu....
Shhh, da chi!
Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,
Llygoden fach yn deffro!
Ffwrdd â hi!



Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery

© Darluniau gan Matt Joyce

mae addysg yn dechrau yn y cartref
education begins at home

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

# Rhigymau anifeiliaid
### Animal rhymes

Pori Drwy Stori

## Fferm Tad-cu
### (Old MacDonald had a Farm)

Dewch am dro i fferm Tad-cu,
I - AI - I - AI - O.
Ac ar y fferm mae dafad wen,
I - AI - I - AI - O.
Gyda '**mê**' fan hyn a '**mê**' fan draw
a '**mê, mê, mê, mê**', ar bob llaw.
Dewch am dro i fferm Tad-cu
I - AI - I - AI - O.

Dewch am dro i fferm Tad-cu,
I - AI - I - AI - O.
Ac ar y fferm mae mochyn pinc,
I - AI - I - AI - O.
Gyda '**soch**' fan hyn a '**soch**' fan draw
a '**soch, soch, soch, soch**', ar bob llaw
Dewch am dro i fferm Tad-cu
I - AI - I - AI - O.

Dewch am dro i fferm Tad-cu,
I - AI - I - AI - O.
Ac ar y fferm mae buwch fawr ddu,
I - AI - I - AI - O.
Gyda '**mŵ**' fan hyn a '**mŵ**' fan draw,
a '**mŵ, mŵ, mŵ, mŵ**' ar bob llaw.
Dewch am dro i fferm Tad-cu
I - AI - I - AI - O.



Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

© Darluniau gan Matt Joyce

mae addysg yn dechrau yn y cartref
education begins at home

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

Week 4 Wythnos 4

**Hwiangerddi**

**Nursery rhymes**

Pori Drwy Stori

# Ji Ceffyl Bach
## (Gee Up Neddy)

Ji ceffyl bach yn cario ni'n dau,
Dros y mynydd i hela cnau,
Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic,
Cwympo ni'n dau, wel dyna i chi dric!

Cwyd Robin bach a saf ar dy draed,
Sych dy lygaid, anghofia'r gwaed,
Neidiwn ein dau ar ein ceffyl bach gwyn
I fyny'r mynydd ac i lawr y glyn.

Ji ceffyl bach dros frigau y coed,
Fel tylwyth teg mor ysgafn dy droed,
Carlam ar garlam ar y cwmwl mawr gwyn,
Naid dros y lleuad ac i lawr at y llyn.



Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

© Darluniau gan Matt Joyce

mae addysg yn dechrau yn y cartref
education begins at home

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

# Rhigymau drwy'r dydd
**Rhymes all day**

Pori Drwy Stori

## Heno, Heno
**(Tonight, Tonight)**

Heno, heno, hen blant bach,
Heno heno, hen blant bach.
Dime dime dime, hen blant bach,
Dime dime dime, hen blant bach.

Gwely gwely, hen blant bach,
Gwely gwely, hen blant bach.
Dime dime dime, hen blant bach,
Dime dime dime, hen blant bach.

Cysgu cysgu, hen blant bach,
Cysgu cysgu, hen blant bach.
Dime dime dime, hen blant bach,
Dime dime dime, hen blant bach.

'Fory 'fory, hen blant bach,
'Fory 'fory, hen blant bach.
Dime dime dime, hen blant bach,
Dime dime dime, hen blant bach.





## Yn y Bore
**(In the Morning)**

Yn y bore - dyma fi,
Molchi, molchi, un dau tri.
Bwyta brecwast - dyma fi,
Golchi dannedd, un dau tri.
Gwisgo'n sydyn - dyma fi,
Sanau, 'sgidiau - ffwrdd â fi!

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

© Darluniau gan Matt Joyce

mae addysg yn dechrau yn y cartref
education begins at home

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen